Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**4 Medi 2023**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad o ba mor effeithiol yw gwasanaethau heddlu o ran defnyddio arfau saethu.**

Cynhaliwyd yr archwiliad gwaith maes rhwng Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023. Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o’r naw a archwiliwyd, a oedd yn cynnwys edrych ar ei drefniadau ar y cyd â Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru i ddarparu plismona arfog fel rhan o’r Cyd-uned Arfau Saethu.

Sefydlwyd y Cyd-uned Arfau Saethu yn 2012, â swyddogion arfau saethu wedi’u lleoli mewn sawl lleoliad yn barod i’w hanfon i ddigwyddiadau ledled y tair ardal heddlu cysylltiedig. Mae’r cydweithio’n gwella cyflenwi gwasanaeth drwy rannu adnoddau i fwyhau gallu a chapasiti. Cyflwynir rhaglen hyfforddi gyson ac eang i swyddogion arfau saethu a Chomanderiaid ledled heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru. Mae’r Cyd-uned Arfau Saethu’n cynyddu mynediad at adnoddau, ac ar yr un pryd, yn creu arbedion drwy gyflenwi hyfforddiant a chostau offer a rennir.

Y gobaith yw y bydd yr argymhellion a gyflwynwyd gan AHGTAEF yn arwain at gynnydd o ran defnyddio arfau saethu’n effeithiol. Lle y mae rôl i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gael dylanwad a gweithredu cadarnhaol, yr wyf yn croesawu’r argymhellion hyn, a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yr Heddlu.

**Yr oedd wyth argymhelliad o fewn yr adroddiad yn benodol ar gyfer Gwasanaethau Heddlu.**

**<u>Argymhelliad 2</u>**

**Erbyn 31 Gorffennaf 2024, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod mynediad i gomanderiaid arfau saethu strategol arbenigol a chomanderiaid arfau saethu tactegol arbenigol, trwy rota 24 awr ar gyfer eu hardal.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod gan y Cyd-uned Arfau Saethu rota ar gyfer comanderiaid arfau saethu tactegol arbenigol sy’n sicrhau gwasanaeth 24/7. Ategir hyn gan nodwedd ‘galw allan’ ar gyfer Comanderiaid Arfau Saethu Strategol Arbenigol.

**<u>Argymhelliad 3</u>**

**Erbyn 31 Hydref 2023, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod yr offer olrhain asedau cerbydau ymateb arfog, fel a ddarperir gan Blismona Gwrth-derfysgaeth, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio yn eu heddluoedd. Dylent hyfforddi aelodau staff perthnasol i’w ddefnyddio.**

Mae SCHTh wedi cael gwybod bod y Cyd-uned Arfau Saethu'n adolygu'r mater a byddaf yn gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill i geisio diweddariad trwy ein trefniadau ar gyfer goruchwylio cydweithio.

**Argymhelliad 5**

**Erbyn 31 Rhagfyr 2023, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod pob comander arfau saethu tactegol a strategol wedi dilyn y tactegau arfau saethu a'r defnydd o arfau rhyfel maen nhw'n medru awdurdodi, cyn cael eu defnyddio'n weithredol.**

Byddaf yn monitro bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni erbyn y terfyn amser. Mae gan y Cyd-uned Arfau Saethu staff sydd ar gael i ddarparu hyfforddiant fel yr amlinellir yn yr argymhelliad.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyd-uned Arfau Saethu'n ffilmio'r tactegau a gyflwynir ar gyrsiau rheoli, ac mae gan y cwrs comander arfau saethu tactegol fideo wedi'i strwythuro sy'n disgrifio'r tactegau.

**Argymhelliad 6**

**Erbyn 31 Rhagfyr 2023, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod y broses achredu flynyddol ar gyfer comanderiaid arfau saethu tactegol a strategol yn cynnwys ymgyfarwyddo ag unrhyw systemau arfau newydd ac arsylwi unrhyw dactegau newydd neu arfau rhyfel arbenigol y mae'r heddlu wedi'u cyflwyno neu'n bwriadu eu cyflwyno.**

Mae fy swyddfa wedi'i sicrhau bod hyn eisoes ar waith o fewn y Cyd-uned Arfau Saethu.

**Argymhelliad 7**

**Erbyn 31 Hydref 2023, dylai'r arweinydd plismona arfog rhanbarthol rannu ymarferion plismona arfog â'r Portffolio Plismona Arfog Cenedlaethol. Byddai hyn yn caniatáu cyfleoedd ar gyfer nodi a rhannu dysgu.**

Endid rhanbarthol yw'r Cyd-uned Arfau Saethu lle maen nhw'n ymarfer gyda darparwr hyfforddi trwyddedig ac yn gweithio gydag Ymgyrch Protect, y Senedd a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ôl yr angen neu yn ôl cyfarwyddyd cenedlaethol.

Mae SCHTh yn deall bod y Cyd-uned Arfau Saethu'n gwneud trefniadau i sicrhau bod yr Arweinydd Strategol Plismona Arfog yn cael gwybod am unrhyw ymarferion rhanbarthol sy'n cael eu cynnal fel ei fod yn medru hysbysu'r Cyfarfod Plismona Arfog Cenedlaethol.

**Argymhelliad 8**

**O hyn ymlaen, dylai pob prif gwnstabl cynorthwyol sy’n arwain ar arfau saethu rhanbarthol fynd i bob cyfarfod Portffolio Plismona Arfog Cenedlaethol. Os nad oes modd iddynt fod yn bresennol, dylent sicrhau bod prif gwnstabl cynorthwyol arall o wasanaeth heddlu yn eu rhanbarth sy’n arwain ar arfau saethu fod yn bresennol ar eu rhan.**

Mae SCHTh yn ymwybodol bod cytundeb gyda Phlismona Arfog Cenedlaethol trwy’r Cyd-uned Arfau Saethu y bydd arweinydd y Cyd-uned Arfau Saethu’n mynd yn ei le os na fydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol sy’n dal y portffolio’n medru bod yn bresennol. Fel eithriad, sicrheir bod Prif Gwnstabl Cynorthwyol arall o’r rhanbarth ar gael i fynd i’r cyfarfod.

**Argymhelliad 10**

**O hyn ymlaen, dylai prif gwnstabliaid wella goruchwyliaeth uwch swyddog o’u harfdai, gan gynnwys archwiliad blynyddol annibynnol.**

Mae fy swyddfa wedi cael gwybod y bydd y Cyd-uned Arfau Saethu’n ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o fewn yr holl arfdai sy’n eiddo iddynt. Bydd fy swyddfa’n ceisio sicrwydd gan y Prif Gwnstabl ynghylch prosesau dwysáu ar gyfer argymhellion archwiliadau.

**Argymhelliad 12**

**O hyn ymlaen, dylai prif gwnstabliaid, trwy eu strwythur llywodraethu plismona arfog, sicrhau bod yr holl gofnodion lleoliad arfog yn cael eu cadw ac yn archwiliadwy.**

Mae’r Cyd-uned Arfau Saethu’n defnyddio system ar gyfer cynnal pob cofnod, hyfforddiant, arfdy a gweithrediadau. Mae hyn yn cynnwys data gweithredol manwl am leoliadau yr ymgymerwyd â nhw gan y Cyd-uned Arfau Saethu. Cofnodir pob defnydd (sy’n dyddio’n ôl i 2012) ar y system ac fe’u cedwir er mwyn eu hadalw a’u harchwilio’n hawdd.

Mae archwilio cofnodion yn digwydd fel rhan o’r broses trwyddedu arfau saethu.

Mae gan y Cyd-uned Arfau Saethu Uned Cymorth Busnes barhaol sy’n mewnbynnu’r holl ddata o ran defnydd. Mae fy swyddfa hefyd yn ymwybodol bod tîm Cymorth Busnes y Cyd-uned Arfau Saethu’n gyfrifol am ansawdd data (gyda rôl swyddog sicrwydd a benodwyd yn arbennig ar gyfer y diben hwn).

Er fy mod i’n fodlon â defnydd Heddlu Dyfed-Powys o arfau saethu, byddaf yn mynd ar drywydd yr argymhellion o’r adroddiad hwn gyda’r Prif Gwnstabl a chydweithwyr yn Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru maes o law er mwyn ceisio sicrwydd bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud.